

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

# Refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016

---

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a phleidiau gwleidyddol yn Refferendwm yr UE er mwyn egluro'r effaith pan fydd y rheolau ar gyfer refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Cymru yn gymwys yn vstod vr un cvfnod.

Cynnwys:

Pryd y caiff gwariant ei reoleiddio

Sut i ymdrin ag achos o orgyffwrdd

Cofrestru â ni



## Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [publications@electoralcommission.org.uk](mailto:publications@electoralcommission.org.uk)

## Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

[www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement](http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement)

---

# 2

## Refferendwm yr UE ac etholiadau mis Mai 2016

### Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Yr effaith pan fydd y rheolau ar gyfer refferendwm yr UE a'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn 2016 yn gymwys ar yr un pryd.

### Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- pwy ddylai gofrestru
- pryd y caiff gwariant ei reoleiddio
- sut i ymdrin â'r cyfnodau a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd
- enghreifftiau
- Cofrestru â ni

### Dogfennau cysylltiedig:

- [Trosolwg o ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Trosolwg o ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o ymgyrchu gan rai nad ydynt yn bleidiau a reoleiddir](#)
- [Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid](#)

# Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolau ar wariant ar gyfer:

- ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a phleidiau gwleidyddol yn ystod y cyfnod cyn etholiadau;
- ymgyrchwyr refferendwm yn ystod y cyfnod cyn refferendwm.

Cyn cynnal refferendwm a rhai etholiadau penodol, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol. Gelwir hyn yn gyfnod y refferendwm ar gyfer refferenda ac yn gyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolau penodol ar ymgyrchu a gwario yn gymwys.

Ceir gorgyffwrdd rhwng y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai 2016 a chyfnod refferendwm yr UE rhwng 15 Ebrill a 5 Mai. Dylech ddarllen y ddogfen hon er mwyn deall sut y bydd y rheolau gwario yn gymwys i chi os ydych yn:

- ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid neu'n ystyried cofrestru; neu'n
  - blaid wleidyddol; neu'n
  - ymgyrchydd refferendwm cofrestredig neu'n ystyried cofrestru fel ymgyrchydd refferendwm
-

# Cyflwyniad

Cynhelir refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar 23 Mehefin 2016. Mae cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill 2016.

Mae'r etholiadau canlynol yn cael eu cynnal ar 5 Mai 2016:

- Etholiad Senedd yr Alban
- Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr
- Etholiadau Maer a Chynulliad Llundain
- Etholiadau lleol yn Lloegr

Ar gyfer yr etholiadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ceir cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar 5 Ionawr 2016 a daw i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 5 Mai.

Mae hyn yn golygu y bydd cyfnod o amser pan fydd cyfnod y refferendwm a'r cyfnod a reoleiddir yn gorgyffwrdd pan fydd y ddwy set o reolau yn weithredol. Gelwir hyn yn 'gyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd'. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rheolau penodol yn gymwys ynglŷn ag ymgyrchu a gwario ar gyfer y refferendwm **a'r** etholiadau.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae'r rheolau yn gymwys os ydych yn gwario arian ar ymgyrchu ar gyfer y refferendwm a'r etholiadau yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd a bydd yn eich helpu i wneud penderfyniadau ar y canlynol:

- p'un a fydd angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid, ymgyrchydd refferendwm neu'r ddau
- p'un a fydd angen i chi rannu eich gwariant
- sut i roi gwybod am eich gwariant

## Pwy ddylai gofrestru?

### Ymgyrchwyr refferendwm

Rhaid i ymgyrchwyr refferendwm sy'n awyddus i wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm gofrestru â ni. Mae ymgyrchu mewn perthynas â'r refferendwm yn golygu gwario arian ar weithgareddau ymgyrchu penodol y bwriedir iddynt hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu sy'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall. Mae hyn yn cynnwys pleidiau gwleidyddol.

### Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr. Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n awyddus i wario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu wedi'i reoleiddio yn unrhyw ran o Gymru, yr Alban neu Ogledd Cymru yn ystod y cyfnod a reoleiddir gofrestru â ni. Caiff gwariant ar weithgareddau ymgyrchu penodol ei reoleiddio os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgaredd yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategorïau o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisiau neu faterion penodol.

### Cofrestru

Rhaid i chi gofrestru ar wahân fel ymgyrchydd nad yw'n blaid ac ymgyrchydd refferendwm os ydych yn bodloni'r gofynion cofrestru uchod. Rhaid gwneud hyn gan fod rheolau ar wahân ar gyfer etholiadau mis Mai a'r refferendwm.



Pan fyddwch yn mynd i wariant ar ymgyrchu mewn perthynas ag eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd, rhaid i chi ddyrannu cyfran o'r gwariant hwnnw i etholiad neu etholiadau penodol neu i'r refferendwm. **Dim ond unwaith y bydd angen cofnodi pob eitem o wariant, naill ai fel gwariant ar ymgyrchu'r rhai nad ydynt yn bleidiau neu fel gwariant plaid neu fel gwariant refferendwm.**

Ceir gwybodaeth am gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid ar dudalen 16 a cheir gwybodaeth am gofrestru fel ymgyrchydd refferendwm ar dudalen 16.

# 6

## Pryd y caiff gwariant ei reoleiddio?

Mae'r rheolau ar wariant yn gymwys yn ystod y cyfnod a reoleiddir a chyfnod y refferendwm. Ceir rheolau hefyd ynghylch gwirio rhoddion, eu derbyn a rhoi gwybod amdanynt ar gyfer etholiadau mis Mai a refferendwm yr UE. Mae'r rheolau yn wahanol ar gyfer etholiadau mis Mai a refferendwm yr UE.

Nodir y cyfnodau a reoleiddir yn y tabl isod:

Etholiad	Dechrau'r cyfnod a reoleiddir	Diwedd y cyfnod a reoleiddir
Senedd yr Alban Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynulliad Gogledd Iwerddon	5 Ionawr 2016	5 Mai 2016 (diwrnod pleidleisio)
Refferendwm yr UE	15 Ebrill 2016	23 Mehefin 2016 (diwrnod pleidleisio)

Rhaid i chi gofrestru gyda ni cyn i chi wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn y refferendwm neu'n ymgyrchu fel ymgyrchydd nad yw'n blaid. . Mae'n drosedd gwario mwy na £10,000 cyn i chi gofrestru.

### Pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau mis Mai

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 5 Ionawr 2016 a daw i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 5 Mai 2016.

Gallwch weld ein dogfennau canllaw penodol ar gyfer etholiadau ar ein [gwefan](#).

### Ymgyrchu ar gyfer y refferendwm

Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill 2016 ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 23 Mehefin 2016.

Gallwch weld ein dogfennau canllaw penodol ar gyfer y refferendwm ar ein [gwefan](#) gan gynnwys y canllawiau [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#).



## Gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir ym mis Mai a chyn dechrau cyfnod y refferendwm

### Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Bydd y rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn gymwys i wariant ar fathau penodol o ymgyrchu os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisïau neu faterion penodol (gelwir hyn yn brawf 'diben'). Yn ogystal â bodloni'r prawf diben, mae'n rhaid i'r gwariant fod wedi'i anelu at y cyhoedd, neu wedi ei weld neu ei glywed ganddynt, neu yn ymwneud â hwy (gelwir hyn yn 'brawf cyhoeddus') a dylech ddarllen ein canllawiau [Trosolwg o ymgyrchu a reoleiddir rhai nad ydynt yn bleidiau](#).

Os ydych yn ymgyrchydd refferendwm, bydd y rheolau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn gymwys i chi os bydd eich ymgyrchu yn bodloni'r prawf cyhoeddus a'r prawf diben. Dylech ystyried yn ofalus p'un a yw'r rheolau hyn yn gymwys i'ch gwariant cyn dechrau cyfnod y refferendwm.

### Pleidiau gwleidyddol

Ystyr gwariant ar ymgyrchu pleidiau gwleidyddol yw'r hyn y mae'r blaid yn ei wario ar weithgareddau penodol i hyrwyddo'r blaid neu ei hymgeiswyr (neu i feirniadu pleidiau eraill neu eu hymgeiswyr yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad) neu fel arall mewn perthynas â hyrwyddo'r blaid neu ei hymgeiswyr.

Os ydych yn blaid gwleidyddol sy'n ymgyrchu mewn perthynas â'r refferendwm, bydd y rheolau ymgyrchu i bleidiau yn gymwys i'ch ymgyrchu os yw eich ymgyrchu yn hyrwyddo eich plaid neu eich ymgeiswyr neu'n beirniadu pleidiau eraill neu eu hymgeiswyr.


---

## Gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd

Mae'r cyfnodau a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr refferendwm yn gorgyffwrdd rhwng 15 Ebrill a 5 Mai 2016.

Bydd eich gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd naill ai'n wariant ar etholiad gan ymgyrchydd nad yw'n blaid neu gan blaid neu'n wariant ar y refferendwm. **Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofnodi pob eitem o wariant.** Yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd, gallwch rannu eitem o wariant rhwng gwariant gan ymgyrchydd nad yw'n blaid neu blaid a gwariant ar y refferendwm.

### Y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd



## Sut i ymdrin â'r gorgyffwrdd

Bydd angen i chi gynnal asesiad gonest a rhesymol yn seiliedig ar y ffeithiau er mwyn penderfynu p'un a yw eich gwariant yn wariant ar ymgyrchu ar y refferendwm neu'n wariant ar ymgyrchu ar etholiad gan ymgyrchydd nad yw'n blaid neu blaid. Dylech ddogfennu eich penderfyniad yn ofalus a'ch rhesymau drosto.

Os ydych yn gwario arian ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod sy'n gorgyffwrdd, bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- pryd y defnyddir yr eitem o wariant
- pa set o reolau sy'n gymwys i ba rannau o'ch gwariant
- p'un a fydd angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid neu ymgyrchydd refferendwm neu'r ddau
- p'un a oes angen i chi rannu eich gwariant neu eitem o'ch gwariant rhwng etholiadau mis Mai a refferendwm yr UE

### Rhannu Gwariant

Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng eitemau sy'n cyfrif fel gwariant ar etholiadau gan ymgyrchydd nad yw'n blaid neu blaid a gwariant ar y refferendwm. Efallai y bydd angen i chi hefyd rannu eich gwariant ar eitem **benodol** sy'n ymgyrchu o blaid canlyniad yn y refferendwm ac hefyd yn ymgyrchu dros blaid neu gategori o ymgeiswyr yn etholiadau mis Mai 2016.


Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ar etholiadau gan ymgyrchydd nad yw'n blaid neu blaid a gwariant ar y refferendwm. Dylech ddogfennu eich penderfyniad a'r rhesymau drosto.

---

# 10

## Sut i gategoreiddio eich gwariant

Noda'r diagram isod y dull gweithredu y dylech ei ddefnyddio wrth ddyrannu eich gwariant yn briodol. Os nad ydych yn siŵr i ba categori y mae eich gwariant yn perthyn, cysylltwch â ni i gael cyngor.



## Enghreifftiau o ddyrannu gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd

Mae'r enghreifftiau isod yn ymdrin â gwariant ar eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir:

- yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai 2016 yn unig
- yn ystod y gorgyffwrdd rhwng y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai 2016 a chyfnod y refferendwm
- yn ystod cyfnod y refferendwm yn unig

Mae'r enghreifftiau yn egluro sut i ddyrannu gwariant a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd. Dylech ddarllen ein canllawiau ar gyfer y rheolau o ran pa gostau y mae angen i chi roi cyfrif amdanynt a rhoi gwybod amdanynt.

### Enghraifft 1

Mae'r Blaid Ddychmygol yn gwario £30,000 ar daflenni ymgyrchu. Mae'r taflenni yn hyrwyddo safbwynt polisi'r blaid o ran yr Undeb Ewropeaidd a'r refferendwm ac yn hyrwyddo ei hymgeiswyr ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dosberthir y taflenni yng Nghymru fel a ganlyn:

- Dosberthir Taflenni Set 1 sy'n werth £10,000 ar 4 Ebrill (yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai ond cyn dechrau cyfnod y refferendwm)
  - Dosberthir Taflenni Set 2 sy'n werth £10,000 ar 1 Mai (yn ystod y cyfnod sy'n gorgyffwrdd)
  - Dosberthir Taflenni Set 3 sy'n werth £10,000 ar 20 Mehefin (yn ystod cyfnod y refferendwm yn unig)
-

# 12

Mae'r blaid yn bwriadu gwario dros £10,000 yn ymgyrchu ar gyfer y refferendwm felly mae'n cofrestru fel ymgyrchydd refferendwm.

## Cam 1: pryd y defnyddir yr eitem o wariant?

Defnyddir **y set gyntaf o daflenni** yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai 2016.

Defnyddir **yr ail set o daflenni** yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd.

Defnyddir **y drydedd set o daflenni** yn ystod cyfnod y refferendwm.

## Cam 2: a yw'r gwariant wedi'i reoleiddio?

Defnyddir **y set gyntaf o daflenni** yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau mis Mai 2016 am gost o £10,000.

Bydd y gwariant hwn wedi'i reoleiddio os mai diben y gwariant yw hyrwyddo'r blaid neu ei hymgeiswyr (neu feirniadu pleidiau/ymgeiswyr eraill yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad) neu fel arall mewn perthynas â hyrwyddo eich plaid/ei hymgeiswyr.

Mae'r taflenni yn hyrwyddo'r blaid ac yn gofyn i bleidleiswyr bleidleisio dros ymgeiswyr y Blaid Ddychmygol yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn wariant ar ymgyrchu a reoleiddir.

Swm gwariant y blaid ar ymgyrchu yw £10,000 ar gyfer y cyfnod hwn

Defnyddir **yr ail set o daflenni** yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd, sef 15 Ebrill-5 Mai, am gost o £10,000.

Bydd y gwariant naill ai'n wariant ar etholiad mis Mai neu'n wariant ar y refferendwm. Rhaid i'r blaid rannu'r gwariant ar y daflen rhwng y ddau ddigwyddiad etholiadol gan ddefnyddio'r egwyddor asesu gonest.

Yn yr enghraifft hon, dylid rhannu cost y daflen gyda 50% tuag at yr etholiad a 50% tuag at y refferendwm gan fod y taflenni

yn ymdrin â'r refferendwm ar un ochr ac etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr ochr arall.

$£10,000 \div 2 = £5,000$  ar gyfer pob math o wariant

Mae £5,000 yn cyfrif tuag at wariant ar ymgyrchu ar y refferendwm

Mae £5,000 yn cyfrif tuag at wariant ar ymgyrchu gan y blaid wleidyddol

Defnyddir **y drydedd set o daflenni** yn ystod cyfnod y refferendwm am gost o £10,000

Caiff y gwariant hwn ei reoleiddio os yw'n wariant y bwriedir iddo hyrwyddo neu hwyluso canlyniad penodol yn y refferendwm neu os yw'n ymwneud â hynny mewn rhyw ffordd arall.

Mae'r daflen yn hyrwyddo canlyniad yn y refferendwm a bydd y £10,000 yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r blaid ar gyfer y refferendwm.

### Cam 3: cadwch gofnod o'ch penderfyniad ar wariant gan gynnwys y rhesymau a chofnodwch y gwariant yn briodol

Yn yr enghraifft hon, bydd y Blaid Ddychmygol yn cofnodi:

Gwariant ar ymgyrchu gan y blaid  $£10,000 + £5,000 = £15,000$

Gwariant ar y refferendwm  $£5,000 + £10,000 = £15,000$

---

# 14

## Enghraifft 2

Mae'r Grŵp Ymgyrchu Dychmygol yn gwario £21,000 ar wefan sy'n annog pobl i bleidleisio i'r DU barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, ac mae hyn yn cynnwys erfyn ar bobl i bleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban dros bleidiau sy'n cefnogi'r safbwynt hwn.

Daw'r wefan yn weithredol ar 15 Ebrill a bydd yn parhau'n weithredol tan 23 Mehefin (70 diwrnod). Ar 6 Mai, caiff y cynnwys sy'n ymwneud â'r etholiadau datganoledig ei ddileu. Mae'r Grŵp Ymgyrchu Dychmygol wedi cofrestru fel ymgyrchydd refferendwm. Nid oes angen iddo gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.

### Cam 1: pryd y defnyddir yr eitem o wariant?

Defnyddir y gwariant rhwng 15 Ebrill a 23 Mehefin. Mae hyn yn cynnwys 21 diwrnod o'r cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd a chyfnod llawn y refferendwm.

Defnyddir y wefan am 70 diwrnod. Er mwyn cyfrifo cost ddyddiol y wefan, rhannwch gyfanswm cost y wefan â nifer y diwrnodau roedd yn weithredol.

$$£21,000 \div 70 = £300 \text{ y dydd.}$$

### Cam 2: a yw'r gwariant wedi'i reoleiddio?

**Defnydd o'r wefan yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd 15 Ebrill - Mai 5:**

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir sy'n gorgyffwrdd, rhaid i'r ymgyrchydd asesu p'un a yw'r gwariant yn bodloni'r prawf cyhoeddus a'r prawf diben a phrawf y refferendwm.

Gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y wefan yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros bleidiau gwleidyddol sy'n cefnogi eu si o barhau yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r wefan yn bodloni'r prawf cyhoeddus gan ei bod yn cael ei hyrwyddo i bleidleiswyr.



Mae'r wefan yn bodloni prawf y refferendwm gan ei bod yn hyrwyddo canlyniad penodol yn y refferendwm.

Dim ond unwaith y mae angen cofnodi gwariant ar y wefan. Mae'r ymgyrchydd yn cynnal asesiad rhesymol a theg y dylai rannu cost y wefan yn gyfartal rhwng gwariant fel ymgyrchydd nad yw'n blaid a gwariant ar y refferendwm.

Mae'n dogfennu'r penderfyniad hwn ac yn rhannu'r cyfanswm ar gyfer y 21 diwrnod yn hanner fel a ganlyn:

$£300 \times 21$  diwrnod = £6,300 (Cyfanswm am 21 diwrnod)

$£6,300 \div 2 = £3,150$  (50%)

Bydd £3,150 yn wariant ar y refferendwm

Bydd £3,150 yn wariant gan ymgyrchydd nad yw'n blaid

### **Defnyddio'r wefan yn ystod cyfnod y refferendwm 6 Mai - 23 Mehefin**

Mae'r wefan yn bodloni prawf y refferendwm a bydd y gost yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r ymgyrchydd ar gyfer y refferendwm

$£300 \times 49$  diwrnod = £14,700

### **Cam 3: cadwch gofnod o'ch penderfyniad ar wariant gan gynnwys y rhesymau a chofnodwch y gwariant yn briodol**

Yn yr enghraifft hon, bydd yr ymgyrchydd Dychmygol yn:

Cofnodi gwariant ar y refferendwm o  $£3,150 + £14,700 = £17,850$

Cofnodi gwariant fel ymgyrchydd nad yw'n blaid o £3,150 (gan fod y swm a wariwyd yn is na'r trothwy cofrestru ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, sef £10,000).

---

# 16

## Cofrestru â ni

### Sut i wneud cais i ddod yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid

Os hoffech gofrestru, gallwch wneud cais ar-lein drwy fynd i [CPE Ar-lein](#). Fel arall, gallwch gofrestru â ni drwy gwblhau [Ffurflen TP1](#) a'i phostio atom. Gallwn hefyd dderbyn copi wedi'i sganio o'r ffurflen drwy [e-bost](#).

Pan dderbyniwn eich cais, byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fydd eich hysbysiad mewn grym.

### Sut i wneud cais i ddod yn ymgyrchydd cofrestredig ar gyfer refferendwm yr UE

Os hoffech gofrestru, gallwch wneud cais ar-lein drwy fynd i [CPE Ar-lein](#). Fel arall, gallwch gofrestru â ni drwy gwblhau [Ffurflen EUR1](#) a'i phostio atom. Gallwn hefyd dderbyn copi wedi'i sganio o'r ffurflen drwy [e-bost](#).

Bydd y broses gofrestru fel arfer yn cymryd pum diwrnod gwaith. Byddwn yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gennych ac yn cadarnhau yn ysgrifenedig pan fydd eich cofrestriad mewn grym.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- [Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)
- [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
- [CPE Ar-lein: Dechrau arni](#)

# Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr:** 0333 103 1928  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- **Yr Alban:** 0333 103 1928  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- **Cymru:** 0333 103 1929  
[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- **Gogledd Iwerddon:** 0333 103 1928  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

Ewch i [www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: [pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)

---